

Cyfarfod:	Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion
Dyddiad:	11 Chwefror 2021
Teitl:	Recriwtio a Phenodi Prif Weithredwr
Pwrpas:	Cytuno ar y trefniadau ar gyfer recriwtio a phenodi i'r swydd
Awdur:	Eurig Williams – Rheolwr Adnoddau Dynol

1. CEFNDIR

Mae'r Prif Weithredwr wedi hysbysu'r Cyngor o'i fwriad i ymddeol ar yr 31ain o Fawrth eleni. Mae'r amserlen yn dynn ar gyfer penodi Prif Weithredwr newydd cyn y dyddiad ymddeol ac felly yn ei gyfarfod ar y 26ain o Ionawr, penderfynodd y Cabinet y dylid symud ymlaen yn ddiymdroi i ddechrau'r gwaith o lenwi'r swydd allweddol hon.

2. RÔL Y PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

Mae gan y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion rôl allweddol yn y broses o benodi Prif Weithredwr. Yn benodol mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r canlynol ar ran y Cyngor:

- Tynnu rhestr fer o ymgeiswyr i'w gyrru ymlaen trwy broses asesu.
- Cynnal cyfweiliadau â'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer.
- Penderfynu a oes ymgeisydd addas y gellid cynnig y swydd iddo / iddi, a rhoi'r argymhelliad hwnnw i'r Cyngor llawn.

3. CAMAU NESAF ARFAETHEDIG

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar dynnu amserlen a fydd yn ein galluogi i benodi erbyn mis Mai ar y cynharaf. Yn wyneb hynny, mae Arweinydd y Cyngor wedi cynnal trafodaeth gyda'r Prif Weithredwr presennol ac mae o wedi cytuno y byddai'n fodlon ymddeol yn hyblyg ar y 31 o Fawrth gan barhau i ymgymryd a'i swyddogaeth yn rhan-amser hyd nes y bydd olynydd wedi'i bphenodi ac o leiaf hyd at etholiad y Senedd ar y 6 o Fai, 2021.

Dyma brif gerrig milltir y broses recriwtio a phenodi, a'r amserlen sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd:

- 24ain o Chwefror – hysbyseb yn ymddangos yn y wasg.
- 11eg o Fawrth – dyddiad cau.
- 19eg o Fawrth – Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i gyfarfod i drafod y rhestr fer.
- Wythnos yn dechrau'r 22ain o Fawrth – Canolfan Asesu (Rhithiol).

- 15fed o Ebrill – Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i gyfweld ac argymhell ymgeisydd i'w penodi.
- 21ain o Ebrill – Cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn er mwyn cadarnhau'r penodiad.

Dylid nodi mai amserlen arfaethedig yw'r uchod ar hyn o bryd; bydd angen i'r pwyllgor fod yn fodlon â'r amserlen hon.

